# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/06/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gwynfor Jones |
| Dafydd Dobson | Gareth Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Carys Roberts | Rhian Sanson |
| Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gito Williams, Caren Jones, Janice Evans a Lleucu Jones. Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 09/05/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones   Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - Derbyniwyd cais i ail baentio'r arwydd Bryn Mynach a'r Ddôl ac yn y parc ail baentio'r 'Hopscoch' a'r 'Sliwan a Ystolion'.
     Penderfyniad: Y clerc i gysylltu hefo'r artist sydd wedi peintio'r 'Hopscoch' a'r 'Sliwan a Ystolion' i ofyn wrthi ddod i'w ail baenito eto ac mae un o'r aelodau am yrru manylion rhywun arall i baentio'r arwyddion eraill i'r clerc gael cysylltu hefo nhw.
   - Mae un o'r aelodau wedi derbyn cwynion bod mynwent Edern angen ei thorri ac hefyd byddai'n syniad da gwneud yn siwr fod bedd Tom Nefyn yn edrych yn daclus ar gyfer yr Eisteddfod. Mae fynwent Fron angen ei thorri hefyd.
     Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r contractwr sydd yn torri'r mynwentydd i ofyn iddo dorri'r ddwy fynwent eto ac i dacluso o amgylch bedd Tom Nefyn erbyn yr Eisteddfod.
   - Mae angen torri mwy o ddarn o gwmpas y meinciau, dim ond darn bach o'u amgylch sydd yn cael ei dorri ac mae angen torri mwy fel bod pwy bynnag sydd yn eistedd arnynt yn cael gweld yr olygfa.
     Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r contractwr i ofyn wrtho dorri darn mwy o hyn allan.
   - Cwyn arall sydd wedi ei dderbyn ydi fod y gwrychoedd o gwmpas y pentrefi angen eu torri, mae rhai wedi tyfu gymaint fel nad oes lle i gerdded ar y pamant.
     Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt gysylltu hefo'r trigolion i ofyn wrthynt eu torri.
   - Derbyniwyd cais gan Gymdeithas Cymru'r Ariannin i gael menthyg bwrdd a pedair cadair o Siop Siarad ar gyfer yr Eisteddfod a cytunodd yr aelodau i gyd i roi caniatad iddynt.
   - Cafwyd diweddariad ar y maes gwersylla gan Gymdeithas yr Iaith maent yn ceisio ei drefnu yn Nefyn ar gyfer yr Eisteddfod gan un o'r aelodau. Bu gwrthwynebiad gan drigolion Nefyn i'r

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

safle yr oeddent yn bwriadu ei ddefnyddio felly maent yn ceisio cael hyd i safle arall yn Nefyn sydd yn dderbyniol gan bawb.

5. **Adroddiad Archwilwyr Mewnol 2022-2023 –** Diweddariad – Clerc
Mae'r clerc wedi paratoi Cynllun Hyfforddiant ac Adroddiad Blynyddol i'r Archwilwyr Mewnol ar ôl iddynt gael eu rhoi fel pwyntiau oedd angen eu lliniaru ar Adroddiad Archwiliad Mewnol 2022-2023 ac wedi eu gyrru i'r Archwilwyr Mewnol. Mae yna Adroddiad newydd wedi cael ei yrru'n ôl i'r clerc hefo'r ddau bwynt uchod wedi cael eu tynnu i ffwrdd ac mae'r clerc wedi ei anfon i'r aelodau, diolchwyd i'r clerc am ei gwaith.

6. **Aelodaeth yr Is-Bwyllgorau**
Aethpwyd drwy rhestr aelodaeth yr Is-bwyllgorau ac fe'i adolgwyd ac mae'r clerc am yrru copi i'r aelodau.

7. **Les Siop Siarad a Wifi yn Siop Siarad –** Arfon Hughes & Clerc
Yn dilyn y pwyllgor diwethaf mae un o'r aelodau wedi bod yn siarad hefo perchennog Siop Siarad ac wedi cael ymateb ganddo. Aethpwyd drwy'r cwestiynnau a dderbyniwyd gan gyfreithiwr y perchennog a cytunwyd ar ymateb i bob cwestiwn felly mae'r clerc am eu gyrru ymlaen iddynt er mwyn cael cwblhau'r Les.
Nid oes Wifi yn Siop Siarad ar ôl i Felin Fach derfynnu'r cytundeb hefo CTN ac mae angen Wifi i gynnal y cyfarfodydd yn hybrid. Cynigiwyd i ofyn i'r Heliwr am gael rhannu Wifi yr Heliwr a rhannu'r gost ac os nad ydynt yn fodlon mae'r clerc am gysylltu hefo gwahanol gwmniau i gael prisiau erbyn y pwyllgor nesaf.

8. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff – Diweddariad –** Clerc
Mae'r clerc wedi rhoi cais i fewn i Cyngor Gwynedd i wneud y newidadau yn y Llyfrgell ac mae un o'r aelodau wedi cyfarfod swyddogion Cyngor Gwynedd yn y Llyfrgell ond yn anffodus 'roedd y Llyfrgell wedi cau ac nid oedd ganddynt oriad i fynd i fewn. Cytunwyd i drefnu cyfarfod arall ond nid yw'r swyddogion wedi cysylltu hefo CTN hyd yn hyn.

9. **Coeden y Llyfrgell –** Arfon Hughes
Mae un o'r aelodau wedi derbyn cwynion fod adar yn hel yn y goeden sydd y tu allan i'r Llyfrgell ac yn gwneud dipyn o lanast ynghŷd â chreu dipyn o swn ac mae un o staff y Llyfrgell wedi cwyno am frigau sydd ddim yn saff felly fe fydd rhaid trefnu i'w thocio.
Penderfyniad: Mae'r clerc am gysylltu hefo'r contractwr sydd wedi ei thorri o'r blaen i gyfarfod un o'r aelodau wrth y goeden a trafod beth sydd angen ei wneud.

10. **Dyfynbrisiau y Byrddau Gwybodaeth –** Clerc
Mae'r Is-bwyllgor byrddau gwybodaeth yn cyfarfod ar ôl y cyfarfod llawn felly mae nhw am fynd drwy'r amcanbrisiau sydd wedi eu derbyn ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor llawn y mis nesaf.

11. **Adnewyddu cytundeb trydan Siop Siarad –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan E-on Next yn dweud ei bod yn amser adnewyddu cytundeb trydan Siop Siarad ac mae'r prisiau wedi codi yn sylweddol gan fod y gytundeb sydd yn dod i ben y

mis nesaf wedi bod yn sefydlog am y ddwy flynedd ddiwethaf. Aeth y clerc dwy'r prisiau ac maent yn cynnig prisiau am bris sefydlog am flwyddyn neu ddwy flynedd a pris hyblyg am flwyddyn.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Npower i gael prisiau ganddynt gan mai nhw sydd yn cyflenwi trydan y Llyfrgell a gan fod angen cychwyn cytundeb newydd cyn y 16eg o mis nesaf trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor ariannol i drafod y pris newydd ac anfon ebost i'r aelodau hefo cynnig yr Is-bwyllgor ariannol i bawb gael pleidleisio.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gwynfor Jones

**12. Cynllun Peilot Dwyfor –** diweddariad a holiadur

Derbyniwyd ebost gan Grwp Cynefin yn atodi diweddariad ar Gynllun Peilot Dwyfor ynghŷd â holiadur i weld beth yw'r diddordeb am y math yma o dai o fewn Dwyfor ac yn cynnig sesiwn wybodaeth ynglŷn â Chynllun Prynnu Cartref Gwynedd.
Penderfyniad: Rhoi gwahoddiad i gynrychiolwyr o Grwp Cynefin i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref. Penderfynwyd hefyd i'r aelod lleol ddrafftio llythyr a'i anfon i'r clerc iddi hi ei anfon i'r aelodau ac os yw pawb yn hapus yna ei anfon i Cyngor Gwynedd.

**13. Llwybrau –** Gruffydd Williams

1. **Ail agor llwybr Lleiniau i tŷ Mel Spar**
   Mae angen torri'r llwybr yma i fyny at y meinciau felly mae'r clerc am gysylltu hefo'r contractwr i ofyn wrtho ei dorri.
2. **Llwybr Penrallt**
   Yn dilyn derbyn gwybodaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn debygol o gau llwybr yr arfordir os bydd yna dirlithriad arall o ben Lôn Gam a'i symud i Lôn y Castell y tu ôl i'r eiddo i gyd sydd ar hyd y ffordd yna a dod allan hanner y ffordd ar hyd y llwybr ac felly yn colli'r holl olygfeydd ar hyd y rhan yna o'r daith mae'r Cynghorydd Lleol wedi trefnu cyfarfod bore yfory hefo Colin Jones Rock Engineering, dau swyddog o Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd, swyddog o Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd, Cynghorydd lleol Morfa Nefyn ac Edern ac unrhyw un arall o CTN sydd yn dymuno mynychu i drafod dyfodol y llwybr. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen hefo perchennog Cliff Top i geisio cael rhan o'r tir er mwyn symud llinell y llwybr yn ôl ar hyd ei dir o ac yr un pryd sefydlogi'r clogwyn o fael ei eiddo fo hefyd. Y bwriad wedyn os ydi pawb yn cytuno fydd i roi cais i fewn i gronfa 'levelling up' yn enw CTN am grant i wneud y newidiadau i'r llwybr.

**14. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Ebost David Entwistle –** cais am gefnogaeth**.**
  Derbyniwyd ebost gan David Entwistle yn gofyn am gefnogaeth i'w gais am i Nefyn fod yn 'designated bathing water site' fel Morfa Nefyn.
  Penderfyniad: Cefnogi ei gais.

**15. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

**16. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.24
- Nefyn Foods Ltd - rent Siop Siarad - £780.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £17.60
- John Gwynfor Jones – angladd Nicholas Robert Jones – £95.00
- D M Parry – taliad cyntaf mynwent Nefyn ac ail daliad mynwent Morfa Nefyn - £1190.00
- David Ogilvie Engineering – meinciau Edern - £3418.80
- Alan Wyn Adams – trydydd taliad cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol – £1797.12
- Npower – trydan y Llyfrgell mis Mai - £270.09
- HMRC – PAYE Mis 3 - £242.31
- G. Williams Ffensio Cyf – Bolardau Lôn Gam Nefyn, gosod y byrddau gwybodaeth, gosod meinciau Nefyn Morfa ac Edern a cael gwared o'r hen feinciau a cau tyllau Lôn y fynwent Nefyn - £13092.00
- Taliad Debyd Uniongyrchol – Treth Dŵr mynwent Nefyn 6 mis - £95.25
- Cyfrif Bryn Mynach – darn i'r ffrâm ddringo ym Mharc y Ddôl - £35.76

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Catrin Roberts

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

- John Hughes a'i Fab – angladd Nicholas Robert Jones - £655.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651